



Amser i ddathlu a gofalu



© [Jake Khuon](#), [Justin Beck](#), [Moni Sertel](#), [Isidro Vila Verde](#)

## Astudiaeth a myfyrdod i Grwpiau

**Paratowyd gan y Parchg Dave Bookless ar gyfer Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

fel rhan o raglen o adnoddau i annog a chynorthwyo eglwysi i gadw Amser y Greadigaeth rhwng 1 Medi a 4 Hydref bob blwyddyn, er mwyn amddiffyn creadigaeth Duw a hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o fyw. Mae thema eleni'n cysylltu â Blwyddyn Fioamrywiaeth Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig.

### Job 38

#### Nod

Dyfnhau gwerthfawrogiad o'r cysylltiadau rhwng ein perthynas â Duw a'n perthynas â natur, gan arwain at adnewyddu ein cariad at Dduw a dyfnhau ein hymrwymiad i ffyniant byd Duw.

#### Gweithgaredd Cychwynnol

Rhowch ddalen fawr o bapur ar y llawr / ar wal a rhoi pin lliw/pin ffelt i bawb. Darllenwch y rhestr fer ganlynol o benawdau papur newydd am storïau amgylcheddol a gofyn i bobl feddwl am y geiriau sy'n dod i'w meddwl gyntaf wrth eu clywed... ac ar ôl i chi eu darllen, gofynnwch i bobl ysgrifennu'r geiriau ar y ddalen o bapur (uchafswm o 3-4 gair am bob pennawd).

*"Bolivia wildfire threatens world's largest wetland"* (AFP)

*"World leaders have failed to stem biodiversity loss"* (The Independent)

*"Eco island is plastic fantastic"* (The Sun)

*"Every household 'will have to pay £500 a year to fight climate change"* (The Daily Mail)

*"BP used cheap type of casing on oil well, Congress papers reveal"* (The Times)

*"Gulf Wildlife Dead-Zone keeps Growing"* (Discovery News)

*"UK inquiry finds emails do not undermine climate science"* (Reuters)

*"Global warming: Reasons why it might not actually exist"* (The Daily Telegraph)

*"Germany targets switch to 100% renewables for its electricity by 2050"* (The Guardian)

*"Lack of Biodiversity may make us Sicker"* (Newsweek)



### Gwrandewch ar:

#### God's Grandeur gan Gerard Manley Hopkins

*The world is charged with the grandeur of God.  
It will flame out, like shining from shook foil;  
It gathers to a greatness, like the ooze of oil  
Crushed. Why do men then now not reckon his rod?  
Generations have trod, have trod, have trod;  
And all is seared with trade; bleared, smeared with toil;  
And wears man's smudge and shares man's smell: the soil  
Is bare now, nor can foot feel, being shod.*

*And for all this, nature is never spent;  
There lives the dearest freshness deep down things;  
And though the last lights off the black West went  
Oh, morning, at the brown brink eastward, springs —  
Because the Holy Ghost over the bent  
World broods with warm breast and with ah! bright wings.*

- Gofynnwch i rywun sydd â llais da, ac sydd wedi cael cyfle i ymarfer, ddarllen y gerdd. Dylid ei darllen yn araf, gan fwynhau'r geiriau, ac o bosib ei hailadrodd.
- Rhowch ddarn o bapur a phin neu bensil i bawb wrth iddynt wrando, a gofyn iddynt nodi geiriau neu ymadroddion sy'n eu taro.
- Rhannwch beth sydd wedi'ch taro. Ymhlith y geiriau a'r ymadroddion trawiadol mae:
  - 'the world is charged with the grandeur of God'
  - 'all is seared with trade; bleared, smeared with toil'
  - 'wears man's smudge'
  - 'nature is never spent'
  - 'dearest freshness deep down things'
  - 'the Holy Ghost over the bent world broods'
  - 'ah! bright wings'
- Trafodwch sut mae aelodau'r grŵp wedi profi mawredd Duw ym myd natur.
- Trafodwch sut mae pobl wedi cael profiad personol o effaith negyddol y ddynoliaeth ar fyd natur.

### Fel arall

Gwylwch ddarn byr o fideo natur sy'n ysbrydoli (e.e. 'Life on Earth' y BBC, neu'r ffilm 'Microcosmos')



**Darllenwch gyda'ch gilydd: Job 38:1-27**

(Mae cyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd o'r darn hwn yn llifo'n dda, er bod rhai yn hoffi darllen y darn hwn ym Meibl William Morgan, oherwydd eu bod yn teimlo bod yr hen gyfieithiad yn cyfleu mawredd y gwreiddiol yn fwy effeithiol.)

**Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth**

- Pam mae natur yn ffynnu? Beth mae Job yn ei awgrymu am hynny?
- Pa ddelweddau mae Job 38 yn eu defnyddio i ddisgrifio gwaith Duw yn y greadigaeth? (Mae'r atebion yn cynnwys dylunydd / pensaer / rhiant / rheolwr / darparwr)
  - Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am gymeriad Duw?
  - Pa nodweddion eraill o gymeriad Duw mae pobl wedi'u gweld yn eu profiad eu hunain o natur?
- Ar gyfer pwy mae Job 38:25-27 yn awgrymu mae'r greadigaeth? Ai dim ond ar gyfer pobl?
- Sut mae ymddygiad pobl heddiw yn rhwystro'r greadigaeth rhag ffynnu?
  - Beth yw achosion gwaelodol hyn – sut aethom ni o le?
- Sut mae angen i ni ailgyfeirio'n hunain i ailganfod persbectif Job 38? Beth allai hynny ei olygu ar gyfer:
  - ein blaenoriaethau?
  - ein ffyrdd o fyw?
  - ein bywyd eglwys?
  - ein bywyd gwaith?

**Gwylwch**

Salm 104 – Wildly Wonderful World

(Cyflwyniad PowerPoint sydd ar gael i'w lawrlwytho o [www.arocha.org.uk/resources](http://www.arocha.org.uk/resources) - dewiswch Environment Resource Packs / 2010: What a wildly wonderful world!<sup>1</sup>) Gellid ei wylio gyda cherddoriaeth glasurol addas yn y cefndir, neu gyda rhywun yn darllen y testun.

**Gweddiwch**

Treuliwch ychydig funudau o ddistawrwydd gyda'ch gilydd, yn gofyn i Dduw ddangos i bob unigolyn sut gallai ymateb yn ymarferol, er mwyn galluogi creadigaeth Duw i fod yn fwy ffyniannus.

- Gweddiwch dros rannau o'r byd sy'n dioddef effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.
- Gweddiwch dros y rhai sy'n gweithio yn y sectorau amgylcheddol a chadwraeth.
- Gweddiwch dros sefydliadau Cristnogol sy'n ceisio gofalu am fyd Duw, megis A Rocha, Christian Ecology Link, Eco-Congregation, John Ray Initiative, Operation Noah<sup>2</sup>.
- Gweddiwch dros Eglwys Dduw ar lefel fyd-eang, fel ei bod yn adennill pwysigrwydd sylfaenol gofal am y greadigaeth yn ei haddoliad a'i chenhadaeth.

**Gweddi Derfynol gyda'i gilydd**

*Allu Duw, sy'n cael ei arddangos yn y greadigaeth,  
 llanw ni â gras i wasanaethu Duw yn ei fyd;  
 Dangnefedd Duw, sy'n anadlu ym mhob peth byw,  
 galluoga ni i ledaenu tangnefedd Duw ble bynnag yr awn;  
 Gariad Duw, sy'n llanw'r bydysawd,  
 llifa drwom fel ein bod yn ddrych o'i ddelw,  
 a boed bendith Duw Hollalluog,  
 y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,  
 yn ein plith ac yn aros gyda ni bob amser*

**Amen.**

<sup>1</sup> Mae'r cyflwyniad PowerPoint hwn yn rhan o Becyn Adnoddau Amgylcheddol A Rocha UK i'r eglwysi, sydd ar gael i'w lawrlwytho o [www.arocha.org.uk/resources](http://www.arocha.org.uk/resources), ynghyd â llawer o adnoddau eraill ar gyfer addoliad eglwysi a grwpiau.

<sup>2</sup> Rhagor o wybodaeth yn [www.ctbi.org.uk/BAA/67](http://www.ctbi.org.uk/BAA/67)